

PWYSIG - DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA/ PLEASE READ

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,
 Dear Parent/Carer,

Yn gyntaf oll, gobeithio eich bod i gyd yn iach ac yn cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod anodd yma, wrth i drefniadau hunan ynysu barhau.

O ran yr wythnosau nesaf, gan gychwyn o ddydd Llun yr 20fed o Fai, bydd y trefniadau presennol yn parhau. Bydd darpariaeth ar gael yn yr ysgol i blant rhieni sydd yn weithwyr allweddol yn unig, a ble mae'r ddau riant yn weithwyr allweddol. Bydd y ddarpariaeth ar gael o 8 y.b. hyd at 4.30 y.p. Rydym yn pwysleisio fod yr ysgol ar gael i ofalu am blant os nad oes unrhyw drefniadau gofal arall yn bosib i'r plentyn. **Dod a'r plentyn i'r ysgol ddylai fod y dewis olaf. Ar hyn o bryd adref yw'r lle mwyaf diogel i'r plentyn fod. I'r rhai sydd yn gorfod defnyddio'r gwasanaeth gofal sydd ar gael yn yr ysgol, ac heb unrhyw ddewis neu opsiwn arall, rhaid i chi sicrhau eich bod wedi hysbysu'r ysgol drwy e.bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk gan nodi enw'r plentyn ac enwau'r rhieni/gofalwyr yn ogystal a gwaith y ddau riant/ofalwr.** O ran diogelwch pawb yn yr ysgol, ni ddylech anfon eich plentyn os yw ef/hi yn arddangos unrhyw un o'r symptomau sydd yn gysylltiedig gyda'r feirws, neu os oes aelod arall o'r teulu yn arddangos symptomau.

Cyn y Pasg, pan oedd yr ysgol yn cau, fe wnaeth pob plentyn dderbyn pecynnau gwaith, oedd yn cynnwys gweithgareddau wedi ei paratoi gan yr athrawon. Mae llawer o'r plant wedi bod mewn cyswllt gyda'r athrawon drwy e.bost ac wedi gwneud defnydd o'r llwyfan dysgu HWB. Yn ogystal a'r gweithgareddau amrywiol y mae'r plant wedi ei derbyn, erfynaf arnoch hefyd i barhau i roi ffocws ar les emosiynol a meddyliol eich plentyn, dim ots beth yw ei hoedran. Eu gwarchod nhw rhag ofer boeni - troi sky news i ffwrdd, cuddio erthyglau papur newydd. Mae gormod o wybodaeth yn gallu bod yn beth drwg. Darllenwch gyda'r plant, gwnewch ychydig o gelf a chreffft, chwaraewch gemau bwrdd, jigso, gwrando ar gerddoriaeth - cymerwch un dydd ar y tro.

Hoffwn eich atgoffa fod nifer o wefanau sydd yn cynnig adnoddau ar lein am ddim. Er enghraifft mae 30 'audiobook' ar gael am ddim gan David Walliams. Mae Carol Vorderman hefyd yn cynnig ei app defnyddiol mathemateg am ddim am gyfnod o amser. Hoffwn eich hannog fel rhieni/gofalwyr i rannu syniadau ac arferion da sydd wedi bod yn llwyddiannus i chi. Byddwn fel staff yn parhau i rannu syniadau ac yn cyflwyno gweithgareddau i'r plant. Dyma syniadau am weithgareddau efallai nad ydych eto wedi dod ar eu traws.

e-Bug www.e-Bug.eu Nifer o wersi ar feicrobau a hylendid resbiradol	e-Bug www.e-Bug.eu A number of lessons on microbes, respiratory hygiene
Cosmic Yoga www.cosmickids.com Yoga a 'mindfulness' i blant. Fideos am ddim ar You Tube. Mae yna gost i rai o'r adnoddau.	Cosmic Yoga www.cosmickids.com Yoga and mindfulness for children - free videos on You Tube. There is a charge for some resources.
Gwefan Food a fact of life www.foodafactoflife.org.uk Adnoddau rhyngweithiol am ddim ar gyfer dysgu plant a phobl ifanc 3-16 oed am fwyd.	Gwefan Food a fact of life www.foodafactoflife.org.uk Interactive free resources for teaching young people aged 3-16 about food.
PE with Joe Wicks www.thebodycoach.com/blog/pe-with-joe-1254.html Gweithgareddau corfforol hwyliog am 9 o'r gloch pob bore i ar gyfer pob oedran(gan gynnwys oedolion !)	PE with Joe Wicks www.thebodycoach.com/blog/pe-with-joe-1254.html Fun daily workouts at 9a.m. for all ages (including adults !)
Think u Know www.thinkuknow.co.uk Diogelu ar lein ar gyfer pob oedran	Think u Know www.thinkuknow.co.uk Online safety activities for all ages

Gyda'r sefyllfa o ran y feirws Corona yn datblygu o ddydd i ddydd, rydym yn parhau i ddilyn y cyngor a roddir gan y Llywodraeth a'r Awdurdod Lleol wrth ymateb i'r sefyllfa. Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw gyngor neu wybodaeth bellach y byddwn yn ei dderbyn fel ysgol.

Diolch am eich cyd-weithrediad parhaus, cymerwch ofal a daliwch i wenu !

Yn ddiffuant

Mr Rhodri Jones
 Pennaeth / Headteacher